Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 1142 (Cy. 191)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2024

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992 ("Rheoliadau 1992").

O dan Ran 2 o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988") (ardrethu annomestig: cronni), mae'n ofynnol i awdurdodau bilio (sef, yng Nghymru, gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Weinidogion Cymru. Mae Rheoliadau 1992 yn cynnwys rheolau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau hynny ar gyfer awdurdodau bilio Cymru.

Trinnir clybiau chwaraeon amatur cymunedol ("CChACau") yn yr un modd ag elusennau at ddibenion rhyddhad ardrethi annomestig o dan baragraff 2 o Atodlen 4ZA i Ddeddf 1988 (hereditamentau a feddiennir: symiau a godir). Mae rheoliad 2(2) yn diwygio paragraff 3 o Atodlen 1 i Reoliadau 1992 (rheolau ar gyfer cyfrifo cyfraniadau ardrethu annomestig) i sicrhau y trinnir CChACau yn yr un modd ag elusennau at ddibenion cyfrifo cyfraniadau ardrethu annomestig. Mae rheoliad 2(2)(h)(i) yn diwygio anghysondeb rhwng y canrannau ym mharagraff 3(1)(b) a 3(4)(b) o Atodlen 1.

Gwnaeth adran 69 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 (ardrethi annomestig: rhyddhad yn ôl disgresiwn) ddiwygiadau i adran 47 o Ddeddf 1988 (rhyddhad yn ôl disgresiwn). Diddymodd adran 47(2)(a) o'r Ddeddf honno a oedd yn nodi amodau ar gyfer rhoi rhyddhad ardrethi annomestig yn ôl disgresiwn. Mewnosododd adran 47(8A) yn y Ddeddf honno hefyd, sy'n datgan nad yw adran 47 yn gymwys pan fo'r hereditament yn hereditament a eithrir, fel y'i diffinnir yn adran 47(9).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae paragraff 3(1) a (4) o Atodlen 1 i Reoliadau 1992 yn caniatáu i awdurdodau bilio ddidynnu canrannau penodedig o'u cyfraniadau ardrethu annomestig pan fônt wedi rhoi rhyddhad ardrethi annomestig yn ôl disgresiwn o dan adran 47 o Ddeddf 1988. Felly nid yw cyfeiriadau at y gofyniad nad hereditament a eithrir yw'r hereditament ym mharagraff 3(1) a (4) o Atodlen 1 i Reoliadau 1992 yn ofynnol mwyach, o ganlyniad i fewnosod adran 47(8A) yn Neddf 1988. Mae rheoliad 2(2)(c), (e), (h)(ii) a (iv) o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i baragraff 3(1) a (4) o Atodlen 1 i Reoliadau 1992 i ddileu'r cyfeiriadau hynny.

Mae paragraffau 3 a 4 o Atodlen 2 i Reoliadau 1992 (rhagdybiaethau sy'n ymwneud â symiau dros dro) yn darparu i ragdybiaethau gael eu cymhwyso pan fydd awdurdodau bilio yn cyfrifo swm dros dro eu cyfraniad ardrethu annomestig. Mae rheoliad 2(3) yn gwneud diwygiadau canlyniadol i baragraffau 3 a 4 o Atodlen 2 i Reoliadau 1992 i ddileu cyfeiriadau at adran 47(2)(a) o Ddeddf 1988. Mae rheoliad 2(3) hefyd yn diwygio Atodlen 2 i roi CChACau o fewn paragraff 3.

Mae rheoliad 2(4) yn diwygio Rheoliadau 1992 drwy roi Atodlen 4 newydd (ffigurau poblogaeth oedolion) yn lle'r un bresennol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2024 Rhif 1142 (Cy. 191)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11 Tachwedd 2024* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *13 Tachwedd 2024* |
| *Yn dod i rym* | *31 Rhagfyr 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 143(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) a pharagraff 4(1) a (5) o Atodlen 8 iddi, ac adran 236(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011(**2**).

### Enwi a dod i rym

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2024 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2024.

(**1**) 1988 p. 41. Diwygiwyd adran 143(2) gan adran 154(3)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1). Diwygiwyd paragraff 4(1) o Atodlen 8 gan baragraff 6(2) o Atodlen 10 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p. 14) a hefyd gan baragraff 7(2) o Atodlen 3 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 (p. 17). Diwygiwyd paragraff 4(5) o Atodlen 8 gan baragraff 7(4) o Atodlen 3 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 (p. 17).

(**2**) 2011 p. 20. Gweler adran 236(2)(a)(ii) am y diffiniad o "appropriate authority" o ran Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn mewn perthynas â blwyddyn ariannol sy'n dechrau â 1 Ebrill 2025 neu ar ôl hynny.

(2) Ym mharagraff 3 o Atodlen 1 (rheolau ar gyfer cyfrifo cyfraniadau ardrethu annomestig)—

(a) yn is-baragraff (1)(a), yn lle "the ratepayer is a charity or trustees for a charity, and the hereditament is wholly or mainly used for charitable purposes (whether of that charity or of that and other charities);" rhodder "one of the following applies—";

(b) ar ôl is-baragraff (1)(a) mewnosoder—

"(i) the ratepayer is a charity or trustees for a charity, and the hereditament is wholly or mainly used for charitable purposes (whether of that charity or of that and other charities);

(ii) the ratepayer is a registered club for the purposes of Chapter 9 of Part 13 of the Corporation Tax Act 2010(**2**) (community amateur sports clubs) and the hereditament is wholly or mainly used for the purposes of that club or for the purposes of that club and of other such registered clubs;";

(c) yn is-baragraff (1)(b)(i), yn lle'r geiriau "the hereditament is not an excepted hereditament, and all or part of it", rhodder "all or part of the hereditament";

(d) hepgorer is-baragraff (1)(b)(ii) a'r "or" ar ei ôl;

(**1**) O.S. 1992/3238, a ddiwygiwyd gan O.S. 1993/1505, 1993/3077, 1994/547, 1994/1742, 1994/3125, 1995/3235, 1996/3018, 1997/3003, 1998/2962, 1999/3439 (Cy. 47), 2000/3382 (Cy. 220), 2001/3910 (Cy. 322), 2002/3054 (Cy. 289), 2003/3211 (Cy. 304), 2004/3232 (Cy. 280), 2005/3345 (Cy. 259), 2006/3347 (Cy. 307), 2007/3343 (Cy. 295), 2008/2929 (Cy. 258), 2009/3147 (Cy. 274), 2010/2889 (Cy. 239), 2011/2610 (Cy. 283), 2012/3036 (Cy. 310), 2013/3046 (Cy. 305), 2014/3193 (Cy. 323), 2015/1905 (Cy. 277), 2016/1169 (Cy. 286), 2017/1159 (Cy. 287), 2018/1196 (Cy. 244), 2019/1399 (Cy. 246), 2020/1366 (Cy. 302), 2021/1333 (Cy. 344), 2022/1214 (Cy. 251) a 2023/1292 (Cy. 229). Addaswyd O.S. 1992/3238 hefyd gan O.S. 1996/619.

(**2**) 2010 p. 4. Mae adran 658(6) o Bennod 9 o Ran 13 yn diffinio "registered club". Diwygiwyd yr adran honno gan baragraff 4 o Atodlen 21 i Ddeddf Cyllid 2013 (p. 29), rheoliad 3(a) a (b) o O.S. 2015/725 ac adran 52(1) o Ddeddf Cyllid 2012 (p. 14).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(e) yn is-baragraff (1)(b)(iii), hepgorer y geiriau "is not an excepted hereditament, it";

(f) yn is-baragraff (4)(a), yn lle "the ratepayer is a charity or trustees for a charity, and the hereditament is wholly or mainly used for charitable purposes (whether of that charity or of that and other charities);" rhodder "one of the following applies—";

(g) ar ôl is-baragraff (4)(a) mewnosoder—

"(i) the ratepayer is a charity or trustees for a charity, and the hereditament is wholly or mainly used for charitable purposes (whether of that charity or of that and other charities);

(ii) the ratepayer is a registered club for the purposes of Chapter 9 of Part 13 of the Corporation Tax Act 2010 (community amateur sports clubs) and the hereditament is wholly or mainly used for the purposes of that club or for the purposes of that club and of other such registered clubs;";

(h) yn is-baragraff (4)(b)—

(i) yn lle "75" rhodder "90";

(ii) yn is-baragraff (i), yn lle'r geiriau "the hereditament is not an excepted hereditament, and all or part of it" rhodder "all or part of the hereditament";

(iii) hepgorer is-baragraff (ii) a'r "or" ar ei ôl;

(iv) yn is-baragraff (iii), hepgorer y geiriau "is not an excepted hereditament, it".

(3) Yn Atodlen 2 (rhagdybiaethau sy'n ymwneud â symiau dros dro)—

(a) ym mharagraff 3(a), yn lle "the condition in section 47(2)(a) applies, and" rhodder "one of the following applies on the chargeable day—";

(b) ar ôl paragraff 3(a) mewnosoder—

"(i) the ratepayer is a charity or trustees for a charity, and the hereditament is wholly or mainly used for charitable purposes (whether of that charity or of that and other charities);

(ii) the ratepayer is a registered club for the purposes of Chapter 9 of Part 13 of the Corporation Tax Act 2010 (community amateur sports clubs) and the hereditament is wholly or mainly used for the purposes of that club or for the

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

purposes of that club and of other such registered clubs, and”;

(c) ym mharagraff 4(a), yn lle “other than a hereditament in relation to which the condition in 47(2)(a) applies, and” rhodder “in relation to which one of the following applies on the chargeable day—”;

(d) ar ôl paragraff 4(a) mewnosoder—

“(i) all or part of the hereditament is occupied for the purposes of one or more institutions or other organisations none of which is established or conducted for profit, and each of whose main objects are charitable or are otherwise philanthropic or religious or concerned with education, social welfare, science, literature or the fine arts;

(ii) the hereditament is wholly or mainly used for purposes of recreation, and all or part of it is occupied for the purposes of a club, society or other organisation not established or conducted for profit, and”.

(4) Yn lle Atodlen 4 (ffigurau poblogaeth oedolion) rhodder yr Atodlen i’r Rheoliadau hyn.

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg, un o Weinidogion Cymru
11 Tachwedd 2024

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

## YR ATODLEN Rheoliad 2(4)

## "SCHEDULE 4 Regulation 6(5)

## ADULT POPULATION FIGURES

| *Billing authority area* | *Prescribed figure* |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 54,032 |
| Bridgend/Pen-y-bont ar Ogwr | 117,802 |
| Caerphilly/Caerffili | 140,377 |
| Cardiff/Caerdydd | 307,789 |
| Carmarthenshire/Sir Gaerfyrddin | 153,399 |
| Ceredigion | 61,618 |
| Conwy | 93,937 |
| Denbighshire/Sir Ddinbych | 77,877 |
| Flinthsire/Sir y Fflint | 124,995 |
| Gwynedd | 97,490 |
| Isle of Anglesey/Ynys Môn | 56,220 |
| Merthyr Tydfil/Merthyr Tudful | 46,137 |
| Monmouthshire/Sir Fynwy | 77,533 |
| Neath Port Talbot/Castell-nedd Port Talbot | 114,906 |
| Newport/Casnewydd | 126,592 |
| Pembrokeshire/Sir Benfro | 101,521 |
| Powys | 111,015 |
| Rhondda Cynon Taf | 192,277 |
| Swansea/Abertawe | 199,795 |
| Torfaen | 73,991 |
| Vale of Glamorgan/Bro Morgannwg | 106,750 |
| Wrexham/Wrecsam | 108,383" |